




**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# **Aseiad Effaith Cydraddoldeb mewn Chwe Cyrchfan Allweddol i Ymwelwyr**



**Phil Chambers Consultancy  
Ar y cyd ag  
Equality Gold ac EurEauWeb  
Mehffin 2016**

## **Crynodeb Gweithredol**

## Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad

Comisiynwyd Phil Chambers Consultancy ar y cyd ag Equality Gold ac EurEauWeb gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb mewn chwe chyrchfan allweddol i ymwelwyr. CNC yw'r corff mwyaf a noddir gan y llywodraeth yng Nghymru, gyda chyfrifoldebau am reoli tir, hamdden a chadwraeth amgylchedd naturiol Cymru. Fe'i sefydlwyd yn 2013, gan gymryd, i gryn raddau, y cyfrifoldeb am gyn swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Y safleoedd yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb oedd:  
Gwarchodfa Natur Genedlaethol a choedwig Niwbwrch, Ynys Môn  
Parc Coedwig Coed y Brenin - Llwybr Glan-yr-Afon Eden a'r Ganolfan Ymwelwyr  
Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Chanolfan Ymwelwyr Cadair Idris  
Canolfan Ymwelwyr, Safle a Llwybr Cerdded yr Helyg, Garwnant,  
Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi-Ynyslas  
Coedwig, Canolfan Ymwelwyr, Safle a Llwybr Barcud Bwlch Nant yr Arian

### Cyd-destun deddfwriaethol

Cynlluniwyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn pennu os oedd pobl a gaiff eu cydnabod fel rhai sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn derbyn gwasanaethau a chyfleoedd cyfartal o safbwynt ymweld â'r chwe safle gwerthuso. Mae nodweddion gwarchodedig yn cynnwys:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae Dyletswydd Gyffredinol (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC, trwy gyflawni ei gwaith, ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; sicrhau gwell cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau. Mae hyn yn cynnwys arferion cyflogaeth ac yng nghydestun yr astudiaeth hon yn ymwneud â nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau a ddarperir gan CNC a'i isgcontractwyr ar safleoedd hamdden awyr agored.

### Methodoleg

Roedd methodoleg yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn gyfuniad o ymgynghoriadau gyda staff CNC ac ymwelwyr drwy sgysiau ar-lein a wyneb yn wyneb, a gynhaliwyd yn gynnar yng Ngwanwyn 2016. Cynlluniwyd methodoleg yr arolwg er mwyn

gwerthuso addasrwydd y safleoedd, y canolfannau ymwelwyr a'r llwybrau a ddisgrifir fel llwybrau "pob gallu" er mwyn pennu eu croeso, eu gwasanaethau a'u cyfleusterau ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Ymwelwyd â'r chwe safle'n unigol, er mwyn cynnal arolygon mynediad, ond mae'n deg dweud, gan nad oedd yr ymweliadau'n ystod y prif dymor ymwelwyr, nad oedd y safleoedd mor brysur ag y byddent yn debygol o fod yn hwyrach yn y flwyddyn. Cynhaliwyd adolygiad polisi a strategaeth i nodi ac asesu sut mae CNC yn cynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig yn eu cynllunio strategol ar draws ystod o wasanaethau i ymwelwyr.

Bwriadwyd cynnal cyfarfodydd grwpiau ffocws yng nghyffiniau pob un o'r safleoedd allweddol, a fyddai'n targedu barn pobl â nodweddion gwarchoddedig, ond dim ond un o'r cyfarfodydd hynny a gynhaliwyd, a hwnnw yn adeilad CNC ym Mangor, yn canolbwyntio'n bennaf ar Warchodfa Natur Genedlaethol a choedwig Niwbwrch, Ynys Môn. Roedd y cynrychiolwyr a fynychodd y grŵp ffocws yn cynnwys aelodau o'r Gymdeithas Marchogaeth i'r Anabl a Chymdeithas y Cerddwyr Anabl. Er y gwnaed ymdrechion i ysgogi ymgynghoriad eang, roedd yr adborth o Warchodfa Natur Genedlaethol a choedwig Niwbwrch yn gadarnhaol yn enwedig o ran egluro'r angen am amgylcheddau di-rwystr a'r angen i gynyddu'r cyfathrebu uniongyrchol rhwng unigolion a grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig a CNC. Hefyd, fel rhan o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, gwerthuswyd y gwasanaethau gwybodaeth a chyfathrebu a ddarperir gan CNC ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig.

### **Demograffeg Safleoedd y Cyrchfannau Allweddol**

Roedd y chwe safle wedi'u gwasgaru ar draws Cymru, o'r mwyaf gogledd-orllewinol, Gwarchodfa Natur Genedlaethol a choedwig Niwbwrch, ar Ynys Môn i Garwnant, ger Merthyr Tudful, yn y de. Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi-Ynyslas oedd y safle mwyaf gorllewinol, er bod y Ganolfan Ymwelwyr ar gau dros dymor y gaeaf yn ystod yr arolwg. Mae Bwlch Nant yr Arian yn gyrchfan brysur i ymwelwyr ger tref prifysgol Aberystwyth, er bod Ceredigion, lleoliad y safle, yn denau ei phoblogaeth. Mae dwy o'r safleoedd, Parc Coedwig Coed y Brenin a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cadair Idris wedi'u lleoli'n ganolog mewn ardaloedd coediog mynyddig.

Nid yw'r sbectrwm llawn o bobl a nodir fel rhaid sydd â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu hadnabod yn llawn mewn gwybodaeth ymchwil allweddol fel y Cyfrifiad, ond lle'r oedd yn bosibl casglu data, roedd yn ddiddorol deall bod 1,100 o bobl sy'n nodi nad ydynt yn wyn, yn byw ar Ynys Môn, ond, ar gyfartaledd, roedd poblogaethau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) mewn cymunedau yn y cyrchfannau ymwelwyr targed yn is nac ar gyfartaledd ar draws Cymru. Dywedodd mwy na 59% o boblogaeth Gwynedd eu bod yn Gristnogion a mwy na 29% nad oedd ganddynt unrhyw grefydd. Ar gyfartaledd roedd 20% o'r bobl yn ardaloedd y cyrchfannau ymwelwyr targed yn disgrifio'u hunain fel bod yn byw gyda "salwch hirdymor cyfyngol" yn y Cyfrifiad diwethaf.

Er nad yw "nodwedd warchoddedig" cyfeiriadedd rhywiol yn cael ei nodi yn y Cyfrifiad, cofnodwyd staff Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) yn ystadegau staffio CNC a gwelwyd bod ymagwedd gadarnhaol tuag at ddarpariaeth cyflogaeth a gyrfa i bobl â "nodwedd warchoddedig" cyfeiriadedd rhywiol. Llongyfarchodd Stonewall, y grŵp eiriolaeth LGBT, CNC am eu hagwedd bositif tuag at bolisïau ac arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth cyflogaeth yn 2016.

### **Arolygon Ar-lein**

Datblygwyd arolwg ar-lein i fesur effaith gwasanaethau a chyfleusterau CNC ar bobl yn y grwpiau nodweddion gwarchoddedig. Er nad oedd nifer yr ymatebion yn fawr, roedd yr adborth yn werthfawr. Roedd yr atebion ar-lein yn bennaf gan bobl anabl a'u heiriolwyr, er bod dau gyfweiliad safle gyda phobl o gefndiroedd BME yn ddi-ddorol hefyd. Teimlwyd bod CNC yn llwyddo i ddiwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig er bod galw clir am fwy o ddeialog a chyfathrebu rhwng pobl â nodweddion gwarchoddedig a CNC. Roedd yna hefyd alw amlwg am wybodaeth fwy cynhwysol a delweddau cadarnhaol o bobl â nodweddion gwarchoddedig ar daflenni a gwybodaeth gwefan, ymhlith y boblogaeth gyffredinol o ymwelwyr. Yn arbennig roedd pobl anabl yn awyddus i weithio'n nes gyda CNC i ddatblygu cyfleoedd awyr agored di-rwystr i bawb.

Anfonwyd holiadur arolwg ar-lein i staff enwebedig CNC sydd ynghlwm â darparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n ymwneud â'r chwe chyrchfan ymwelwyr er mwyn asesu'u gwybodaeth o bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth CNC ac i fesur eu canfyddiad o ba mor effeithiol yw'r polisïau a'r arferion wrth gyflawni cyfrifoldebau CNC i ymwelwyr dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Yn gyffredinol, teimlai'r staff a ddychwelodd yr holiadur fod gan CNC bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth addas ar waith, eu bod yn eu deall a'u bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Er bod rhai staff yn dweud eu bod wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gorffennol, roedd galw clir am hyfforddiant cyfredol ar draws y sbectrwm cyfan o weithio gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig.

### **Arolwg Mynediad i'r Chwe Safle Allweddol**

Yn y gorffennol, nid oedd fformat arolwg clir, cynhwysfawr er mwyn casglu gwybodaeth am hygyrchedd cyrchfannau ymwelwyr ar gyfer pobl ar draws yr ystod o nodweddion gwarchoddedig, felly cynlluniwyd un er mwyn hwyluso casglu data. Yn nyluniad yr arolwg defnyddiwyd safonau a chanllawiau Cefn Gwlad i Bawb a safonau hygyrchedd ategol, Trwy Bob Modd Rhesymol, i ddarparu fframwaith ar gyfer asesu'r amgylchedd ffisegol, megis graddiannau, lled ac ansawdd llwybrau ac ati mewn amrywiaeth eang o leoliadau awyr agored. Aseswyd pob llwybr troed yr ymwelwyd ag ef yn ôl ei safle unigol ac fe'i mesurwyd er mwyn sicrhau bod y nodweddion tirwedd o fewn y safonau mynediad ar gyfer y safle hwnnw. Ystyrir y mwyafrif o'r llwybrau troed a arolygwyd fel rhai "pob gallu" gan CNC ac yn gyffredinol roeddynt o fewn safon wledig Cefn Gwlad i Bawb. Mae "pob gallu" yn derm cadarnhaol, ond nid yw'n amcan; hynny yw, mae'n ystyried galluoedd defnyddwyr y llwybrau yn hytrach nag asesu a disgrifio nodweddion yr amgylchedd ffisegol fydd yn

eu hwynebu. Argymhellir bod CNC yn archwilio'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio llwybrau troed a'u bod yn datblygu disgrifiad mwy gwrthrychol sy'n darparu dewis gwybodus i ddarparu ddefnyddwyr y llwybr ynghylch a yw llwybr yn cwrdd â'u hanghenion mynediad unigol.

Darparwyd y fethodoleg ar gyfer asesu canolfannau ymwelwyr a chyfleusterau amgylchedd adeiledig yn erbyn Dogfen Gymeradwy Rhan M y Rheoliadau Adeiladu a dogfen gyfarwyddyd BS8300 (2001) Dylunio Adeiladau a'u Hymagwedd i ddiwallu Anghenion Pobl Anabl. Defnyddiwyd rhestr wirio a grëwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd (Disability Rights UK, bellach) fel modd o gasglu data am hygyrchedd adeiladau. Er mwyn ymdrin ag anghenion ehangach pobl â nodweddion gwarchodedig, lluniwyd rhestr wirio i nodi gwasanaethau a chyfleusterau a fyddai o fudd i fwy nag un grŵp o bobl ar draws yr ystod o nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, gall ystafell a bennwyd fel ystafell dawel fod yr un mor fuddiol i blentyn ar y sbectrwm awtistig ag i rywun sydd angen lle ar gyfer gweddi neu'n syml i rywun sydd angen gorffwys mewn ystafell heddychlon; neu gall caffi sy'n gweini bwyd sy'n diwallu ystod o anghenion dietegol ddarparu ar gyfer anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig penodol mewn lleoliad cynhwysol. Aseswyd gwerthusiad dulliau cyfathrebu a gwybodaeth a gwasanaethau deongliadol a nodwyd arfer dda; megis gwasanaethau dehongli amlsynhwyrdd eifeithiol a chynhwysol Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cadair Idris.

Un cafeaf pwysig a gynhwyswyd yn nyluniad methodoleg yr arolwg a'r cyngor a roddwyd i CNC oedd Egwyddor Mynediad Lleiaf Rhwystrol (PLRA). Mae'r PLRA ymhlyg yn y Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n mynnu bod darparwyr gwasanaeth megis CNC yn gwneud "addasiadau rhesymol" i ddiwallu anghenion mynediad pobl â nodweddion gwarchodedig. O ran mynediad i'r awyr agored, mae'r PLRA yn cydnabod nad oes angen i bob llwybr troed fod yn hygyrch i bawb sy'n anabl, ond dylai rhai ohonynt fod, ac mae CNC yn cwrdd â'r angen hwnnw drwy ddarparu'r hyn y maent yn eu disgrifio fel llwybrau "pob gallu", a oedd yn gyffredinol yn cydymffurfio â safon wledig Cefn Gwlad i Bawb. Gofynnodd y Cerddwyr Anabl yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod yr arolwg i CNC ymestyn cyfleoedd, trwy gymhwyso'r PLRA, er mwyn i sgwteri awyr agored gael mynediad i leoedd mwy heriol, drwy gyflwyno llwybrau di rwystr; sy'n gyffredinol yn llwybrau heb gamfeydd, ffensys a waliau.

Yn ystod y broses arolwg casglwyd llawer iawn o wybodaeth mynediad, yn y chwe chyrchfan ymwelwyr, am yr amgylchedd awyr agored ac adeiledig, darpariaeth gwybodaeth ac arwyddo a gwasanaethau deongliadol. Cafwyd lluo o argymhellion ar gyfer pob safle unigol a nodwyd rhwystrau i fynediad drwy ddarparu ffotograffau i gynorthwyo staff CNC i wneud gwelliannau o ran mynediad. Bu rhai aelodau o staff CNC gyda thîm yr arolwg yn ystod yr arolygon safle, a bu hynny'n fuddiol i'r ddwy ochr. Argymhellir bod staff CNC yn cael eu hyfforddi'n briodol mewn sgiliau archwilio mynediad er mwyn parhau ac ymhelaethu ar y gwaith a wnaethpwyd yn ystod y gwerthusiad Asesu Effaith Cydraddoldeb.

## Canfyddiadau'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Heb unrhyw amheuaeth, mae CNC yn cyflawni'r rhwymedigaethau i bobl â nodweddion gwarchoddedig o ran y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir ganddynt yn y chwe chyrchfan ymwelwyr allweddol yr ymwelwyd â hwy. Mae ymrwymiad CNC i weithio'n nes gyda holl grwpiau defnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr yn amlwg a staff CNC yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag adeiladu ar yr arfer dda a'r ddeialog a gafwyd yn ystod y cyfarfod grŵp ffocws mynediad cynhwysol am Warchodfa Natur Genedlaethol a choedwig Niwbwrch.

Cynhaliwyd rhai prosiectau rhagorol yn y gorffennol, megis Mosaic a oedd yn annog pobl BEM i ymweld â Pharc Cenedlaethol Eryri a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'r lefel honno o arfer dda yn fodel y dylai CNC ei hefelychu yn y dyfodol. Teimlwyd bod CNC yn hyrwyddo'u cyfleusterau a'u gwasanaethau'n fwy effeithiol ar gyfer rhai grwpiau o bobl sydd â "nodwedd warchoddedig" nag eraill. Mae pobl ifanc, plant ac oedolion ifanc yn cael eu cynnwys yn aml yn neunydd hyrwyddo Bwlch Nant yr Arian, a menywod â phlant ifanc yn cael eu portreadu'n ymweld â'r safle ac yn mwynhau'r awyr agored. Ond, dywedodd dyn ifanc o dras BEM y byddai'n hoffi gweld rhagor o ddelweddau positif, mwy cynhwysol o ymwelwyr BEM mewn deunydd hyrwyddo, a hynny er mwyn dathlu ymrwymiad CNC i arferion cynhwysol a hefyd i godi ymwybyddiaeth pobl nad ydynt yn ymweld â'r chwe chyrchfan ymwelwyr bod y cyfle yno iddynt hwy eu mwynhau hefyd.

Mae'n bwysig iawn i CNC dderbyn cydnabyddiaeth am eu harferion cyflogaeth da iawn o ran staff LGBT ac mae cyfle'n awr i'r sefydliad adlewyrchu'r llwyddiannau hynny yn eu darpariaeth o nwyddau a gwasanaethau mewn amgylcheddau awyr agored. Dylid cysylltu â sefydliadau fel Unique, grŵp cefnogaeth i bobl drawsrywiol sy'n gwasanaethu Gogledd Cymru a gorllewin Swydd Gaer sy'n cyfarfod yn Llandudno, i ddatblygu cysylltiadau â phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig cyfeiriadedd rhywiol. Mae Llesiau Ceredigion dros Gydraddoldeb hefyd yn grŵp sy'n dod i'r amlwg, a hwylusir gan y Cyngor, a allai hefyd gael ei dargedu gan CNC i hyrwyddo'u safleoedd a chyfleusterau rhagorol.

Yn fyr, gwelwyd bod CNC yn ymrwymedig iawn i adeiladu cyfleoedd cynhwysol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig a bod y staff yn awyddus i dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth ychwanegol er mwyn eu galluogi i fod hyd yn oed yn fwy effeithiol wrth gyflawni'r amcan hwnnw.

Canfuwyd bod gan CNC fframwaith polisi a strategaeth da er mwyn sicrhau amgylcheddau mwy cynhwysol a bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015 - 2019 yn berthnasol iawn o ran ei nodau a'i amcanion sy'n datgan, "Rydym yn sylweddoli bod gan bobl wahanol anghenion, diwylliannau, profiadau a disgwyliadau, a thrwy ymateb i'r rhain, rydym i gyd yn elwa o brofiad cyfoethocach o fywyd ac agwedd ehangach er mwyn darparu gwasanaeth rhagorol ar gyfer ein holl gwsmeriaid a chwrdd â'n nodau tymor-hir".

## Argymhellion strategol

Er bod argymhellion unigol wedi'u darparu ym mhob un o'r chwe safle ymwelwyr a dargedwyd i helpu diwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig; hefyd fe wneir yr argymhellion strategol canlynol i CNC.

## Polisi a Strategaeth

Er bod nifer o ddogfennau polisi a strategaeth wedi'u hadolygu yn ystod yr astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015 - 2019 ddylai fod yn feincnod i CNC ar gyfer cyflawni'u cyfrifoldebau i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Mae hon yn ddogfen hollgwmpasog a ddylai ddylanwadu ar yr holl gynlluniau strategol eraill. Nid oes gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol fframwaith cysylltiedig o amcanion SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig, amserol) eto, felly i ryw raddau mae'n dal i fod yn bolisi o ddyheadau. Dylid integreiddio'r canfyddiadau a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn ystyried yn well anghenion ymwelwyr â nodweddion gwarchoddedig, fel y gallant fwynhau cyfle cyfartal wrth gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau CNC. Dylid sefydlu llinell gyfathrebu glir, fel bod aelodau o staff, gwirfoddolwyr a sefydliadau partner yn deall sut y mae eu swyddi'n dylanwadu ar lwyddiant cwrdd ag amcanion cydraddoldeb, fel eu bod yn teimlo'n rhan o'r prosesau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a chyfleusterau cynhwysol i bobl â nodweddion gwarchoddedig.

## Gwasanaethau monitro

Yn ystod yr arolwg canfuwyd nad yw CNC ar hyn o bryd yn nodi Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) er mwyn sicrhau bod polisiâu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhoadru drwy'r sefydliad ac yn cael eu monitro o safbwynt amcanion yn ymwneud â phobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae'n hanfodol bod holl staff CNC, gwirfoddolwyr a phartneriaid yn cael arweiniad a chyfarwyddyd i alluogi'r sefydliad i fonitro'n effeithiol, a lle bo angen, addasu ei arferion er mwyn darparu meincnod ar gyfer cwrdd â chyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Mae sefydlu DPA ac adolygiadau rheolaidd ar bob lefel o'r sefydliad yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r nod hwn.

## Ymgynghori ac Ymgysylltu

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi'n glir ymrwymiad CNC i weithio mewn partneriaeth â phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a dengys yr astudiaeth bod CNC yn cwrdd â'r nod o ran arferion cyflogaeth, ac amlygir hyn yn y gwelliant ym mynegai cydraddoldeb Stonewall. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth sy'n dangos bod y safon hon yn cael ei hailadrodd o ran y gwasanaethau i ymwelwyr ac ychydig o enghreifftiau diriaethol a ganfuwyd, yn enwedig ar "lawr gwlad". Cafwyd enghreifftiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig yn adrodd am wasanaeth da ym mhob un o'r safleoedd yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr arolwg, ond nid oes canfyddiad cyffredinol bod CNC yn gweithio'n agos gyda phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig er mwyn canfod eu hanghenion a'u dymuniadau a, lle bo hynny'n ymarferol, yn gweithio mewn ymgynghoriad â hwy i gwrdd â'u dyheadau. Mae'n hanfodol bod CNC yn ymgynghori'n fwy effeithiol â phobl â nodweddion gwarchoddedig er mwyn sicrhau nad ydynt dan anfantais o ran cyfleoedd i gymryd rhan yn gyfartal yng ngwasanaethau CNC. Argymhellir sefydlu fforymau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Lleol i ategu'r Fforymau Mynediad Lleol sydd ar lawr gwlad a

bod y rhain yn cael yr adnoddau angenrheidiol er mwyn cefnogi cynhwysiant pobl â nodweddion gwarchoddedig.

### **Marchnata a Chyfathrebu**

Mae angen i CNC ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a datblygu strategaeth farchnata a chyfathrebu sy'n targedu'r holl bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Ar hyn o bryd fe ymddengys bod y pwyslais ar deuluoedd a phobl ifanc egnïol. Awgrymodd pobl o gefndiroedd BME y dylid darparu delweddau cadarnhaol o bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau mewn lleoliad integredig. Dylid gwneud defnydd o amrywiaeth o blatfformau cyfryngol, ac mae gwefan CNC yn gyfle allweddol i gyflwyno darluniau a delweddau o wasanaethau cynhwysol cadarnhaol. Mae cyfle amlwg i CNC dargedu gwybodaeth at sefydliadau eiriolaeth ymbarél megis Unique Transgender, Prifysgol y Drydedd Oes a grwpiau sy'n dod i'r amlwg fel Lleisiau Ceredigion Dros Gydraddoldeb ac i chwilio am sefydliad mwy lleol i gysylltu ac ymgynghori â hwynt ynghylch materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynllunio.

Nid yw'r llinell gyfathrebu gyda phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn glir ac fe ymddengys mai dull ad-hoc sydd o ddarparu gwybodaeth ar y wefan a thafenni hyrwyddo, a hynny'n bennaf o natur generig, gan ffocysu ar deuluoedd bywiog a phobl ifanc. Ni ymddengys bod marchnata wedi'i dargedu'n benodol at bobl â "nodweddion gwarchoddedig".

Mae gan wefan CNC dudalen benodol ar Gynllunio'ch Ymweliad ar gyfer pob un o chwe safle'r astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb, ond yn anffodus mae'r rhain mewn fformat testun, heb unrhyw raffeg na darluniau'n dangos pobl anabl yn cael amser da mewn lleoliad awyr agored integredig a chynhwysol.

Consortium y We Fyd-eang, [www.w3c.org](http://www.w3c.org) <<http://www.w3c.org>> yw'r safon ryngwladol ar gyfer hygyrchedd a defnyddioldeb gwefannau ac fe argymhellir, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes, y dylai CNC sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau W3C. Er nad yw wedi'i gadarnhau gan y llywodraethau perthnasol hyd yn hyn, ar Fai 3 2016, cytunodd y Cyngor Ewropeaidd a'r Comisiwn Ewropeaidd y dylid gwneud pob un o wefannau'r sector cyhoeddus yn fwy hygyrch ac y bydd disgwyl i lywodraethau sicrhau, o fewn un mis ar hugain o'i gadarnhau, bod deddfwriaeth yn cynnwys y gofynion canlynol: -

- Bydd rhaid i wefannau ac apps sector cyhoeddus newydd fod yn hygyrch. Bydd rhaid diweddarau gwefannau cyfredol.
- Bydd angen i gynnwys hŷn fod ar gael, mewn fformat hygyrch, yn ôl y galw
- Bydd angen darparu capsiynau caeedig nau ddewis hygyrch arall ar fideos y llywodraeth. Yn achos ffrydio byw, bydd angen iddynt fod ar gael o fewn 14 diwrnod i'w darllediad.
- Bydd angen datganiad clir yn amlinellu pa rannau o'r gwefannau sector cyhoeddus nad ydynt yn hygyrch.



Bydd angen mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â'r angen am gapsiynau ar fideos sydd ar y wefan CNC ac argymhellir bod CNC yn archwilio'r darpar ddeddfwriaeth o safbwynt ei gofynion "rhagflaenol" dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

### **Gwelliannau Mynediad Corfforol**

Dylai CNC sicrhau bod gwelliannau mynediad corfforol yn darparu llwybrau diogel, hawdd eu tramwyo, sy'n cwrdd ag anghenion amrywiaeth o bobl â nodweddion gwarchoddedig. Dylai'r safonau mynediad ddarparu canllawiau ar gyfer hysbysu ymwelwyr o nodweddion y dirwedd ac os yw'r llwybrau'n fwy serth na'r Safon, dylid hysbysu ymwelwyr o'r ffaith. Dylid rhyng-gysylltu llwybrau da, seddau hawdd cael mynediad atynt a chyfleusterau eraill ynghyd â gwybodaeth ategol ac arwyddion. Dylai CNC adolygu'u cysylltiadau uniongyrchol rhwng llwybrau sy'n diwallu anghenion pobl anabl a theuluoedd gyda bygis plant. Dylid cymhwyso Egwyddor Mynediad Lleiaf Rhwystrol (Gweler **Adran 8 Methodoleg Arolwg Safle**) lle na ellid cwrdd â'r Safon neu gallai CNC archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu deunydd hyrwyddo Trwy Bob Modd Rhesymol ym mheth o'u deunydd hyrwyddo, i nodi llwybrau mwy gwyllt sydd â mynediad di-rwystr. Ar hyn o bryd mae CNC yn gwneud cynnydd da o safbwynt ymgynghori â'r Cerddwyr Anabl yn Ynys Môn ac mae trafodaethau wedi'u cynnal ynglŷn â darparu llwybrau di rwystr i ddefnyddwyr sgwteri awyr agored, ac maent hefyd wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â'r Gymdeithas Marchogaeth i'r Anabl er mwyn trafod cyfleoedd ar gyfer marchogaeth a gyrru cerbydau. Dylai CNC ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cynnal y safonau cyfredol o ran llwybrau troed ar draws y rhwydwaith ac yn cyflawni gofynion "rhagflaenol" y Ddeddf ac anghenion amrywiol pobl â nodweddion gwarchoddedig.

### **Gwasanaethau Gwybodaeth**

Dylai CNC adolygu'u gwasanaethau gwybodaeth a sicrhau bod pobl gydag amrywiaeth eang o nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cynrychioli'n deg ar ddeunydd hyrwyddo. Dylid sicrhau hyn drwy strategaeth glir sy'n cwmpasu ffurfiau print ac electronig, ar draws amrywiaeth o blatfformau digidol. Dylai CNC ddarparu neges glir a chyson ynghylch dyluniad llwybrau troed a darparu gwybodaeth wrthrychol drwy gydol y broses. Dylid darparu technoleg gynorthwyol i gefnogi pobl â nodweddion gwarchoddedig, a darparu is deitlau ar yr holl gyfryngau clyweledol yn y dyfodol; dylid hefyd darparu dolenni sain mewn manau allweddol. Dylid darparu disgrifio clywedol fel rhan o gynllun gwybodaeth cynhwysol. Dylai CNC ddatblygu llawlyfr gwybodaeth dylunio cynhwysol y gellir ei fabwysiadu'n gyffredinol drwy'r sefydliad. Dylai staff strategol gael eu hyfforddi i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth cynhwysol a dylai'r holl staff dderbyn cyfarwyddyd ynglŷn â gwybodaeth a chyfathrebu cynhwysol fel rhan o raglen ddatblygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth generig.



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

## Cysylltiadau

Dylai CNC ddatblygu cynllun datblygu cyfannol ar gyfer safleoedd CNC gyda sicrwydd bod cyfleoedd hamdden ac adloniant allweddol yn cysylltu â'i gilydd. Roedd peth pryder yn ystod yr arolwg y gall fod gwaddol y prosiect Mosaic, ym Mharciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog yn colli'i ddylanwad; mae'n bwysig bod CNC yn cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhwydwaith Hyrwyddwyr Cymunedol ac yn ailadrodd y gwasanaeth ar gyfer rhagor o bobl gyda "nodweddion gwarchoddedig". Mae angen cryfhau'r cysylltiad rhwng cymunedau lleol a phobl â nodweddion gwarchoddedig yn enwedig. Er bod safleoedd CNC yn aml mewn mannau gwledig ac weithiau ynysig, mae angen creu ac ymestyn cysylltiadau â phobl â nodweddion gwarchoddedig drwy sefydlu fforymau mynediad ymgynghorol ar lawr gwlad. Mae rôl rhanddeiliaid lleol yn hollbwysig wrth sefydlu a threfnu'r broses hon. Mae cyfle i CNC weithio'n nes gyda sefydliadau grwpiau cymheiriaid i ledaenu arfer da wrth weithio i ddarparu amgylcheddau cynhwysol, ac i gymryd yr awenau o ran darparu canllawiau, polisïau ac arferion a all ffurfio patrwm ar gyfer dylunio cyffredinol, a ddylid ei gyflawni ar y cyd â sefydliadau grwpiau cymheiriaid a chynrychiolwyr ac eiriolwyr pobl â nodweddion gwarchoddedig.

## Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Un o'r pethau pwysicaf y gall CNC ei wneud er mwyn cynyddu sgiliau a gwybodaeth y sefydliad ac ennill hyder pobl â nodweddion gwarchoddedig yw darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer yr holl staff. Dylid darparu hyn ar gyfer staff hamdden, y tîm gwasanaethau ymwelwyr, timau marchnata ac addysg a dylai gynnwys gwirfoddolwyr, a staff sefydliadau cysylltiol a gwirfoddolwyr. Dylai hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ddarparu cyfarwyddyd cyffredinol am y Ddeddf a'r Ddyletswydd Gyffredinol a chyfrifoldebau CNC, gan gynnwys cyfrifoldebau unigolion. Dylai hefyd gynnwys hyfforddiant wedi'i dargedu'n benodol, megis dylunio cynhwysol, archwilio mynediad ac ymgynghori ac ymgysylltu â nodweddion gwarchoddedig. Dylid ymgynghori â phobl â nodweddion gwarchoddedig ar gynllun y modiwlau hyfforddi ac mae angen iddynt gymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o gyflwyno'r rhaglen hyfforddi.



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

